# ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU

21ain o Hydref 2021

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS Iau 21ain o Hydref 2021
Ar Lein AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

| Presennol: | Ymddiheuriad: |
|---|---|
| Cynghorwyr: | Cynghorwyr: |
| Rory Francis (Cadeirydd) | Glyn Daniels |
| Erwyn Jones | Annwen Daniels |
| Ronwen Roberts | Mark Thomas |
| Bedwyr Gwilym | |
| Gwenlli Evans | |

**1. Derbyn Ymddiheuriadau**

Ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Glyn Daniels, Annwen Daniels, Mark Thomas

**Argymell:** Derbyn yr ymddiheuriadau.

**2. Datganiad Buddiant Personol**
**Dim Datganiad**

**3. Adroddiadau Misol y Caeau Chwarae.**

Bu i'r Pwyllgor drafod yr adroddiadau.

Bu i'r pwyntiau canlynol cael i drafod

Cae Bryn Coed: Y Birdsnest swing a chamau newydd wedi cael i osod. GL Jones wedi gwirio'r Zipline ac wedi cynghori i fod wedi pydru a ddim modd trwsio a bydd angen ei dynnu lawr oherwydd risg uchel o anaf.

**Argymell:** I gael caniatâd perchennog y tir, Gwelliannau Ffestiniog, os oes unrhyw waith angen i wneud yn y cae. Angen dyfynbrisiau i amnewid y Zipline.

Y Parc: Biniau ysbwriel yn llawn a'r pyst gol yn ysgwyd.

**Argymell:** I symud lleoliad y biniau sbwriel yn agos at bob mynedfa ac i osod un wrth y byrddau picnic. A oes modd cael sensors ar finiau sbwriel er mwyn gwybod pan maent yn llenwi? Edrych ar symud y pyst gol i'r cae yn y Parc.

Cae Sgwâr Oakeley: Cyflwr y fainc wedi dirywio.

**Argymell:** Rhoi mainc newydd yn ei le os nad oes modd trwsio.

Parc Sglefrio: Gwaith ar ôl adroddiad RoSPA dal ddim wedi i gwblhau.

**Argymell**: Aros am ddyddiad i wneud y gwaith gan UK Ramps. Dirprwy Glerc i gysylltu eto gyda'r cwmni.

**ARGYMELL:** I dderbyn yr adroddiadau. Mae angen torri gwair yn rhai o'r caeau. Mae llawer o waith, wedi'i gwblhau neu mewn llaw. Dirprwy Glerc i weithredu'r argymhellion uchod. Angen creu rhestr wirio misol Gardd Encil, Tir ger Cae Baltic, Sgwâr Diffwys a Sgwâr Rawson,ac Tir Tan y Manod yn y dyfodol.

**4. Ceisiadau Cynllunio**

Bu i'r Pwyllgor drafod y ceisiadau cynllunio canlynol:

Rhif Cais / Application No.: C21/0961/03/DT
Lleoliad / Location: Fferm Frondirion, Manod, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4BB
Bwriad / Proposal: Estyniad unllawr cefn Single storey rear extension.
Linc / Link:
https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=32238&language=cy
**Argymell: Dim Gwrthwynebiad**

Rhif Cais / Application No.: C21/0936/03/DT
Lleoliad / Location: 13 Heol Cromwell, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3HG
Bwriad / Proposal: Balconi llawr cyntaf ac addasiadau First floor balcony and improvements.
Linc / Link:
https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=32229&language=cy
**Argymell: Dim Gwrthwynebiad**

**5. Llenwi Biniau Halen**

Bu i'r Pwyllgor drafod llythyr Cyngor Gwynedd ynglŷn ag ail lenwi'r Biniau Halen am bris o £ 46.00 yr un.

**Argymell:** Cytuno i Gyngor Gwynedd ail lenwi'r biniau i gyd. Nodi yn yr ymateb bod rhai cynghorau cymunedol eraill wedi cael y gwasanaeth am ddim. Angen trefnu bod enw/logo'r Cyngor Tref yn mynd ar bob bin, wrth gael stencil a pheintio'r enw yn hytrach na sticer.

## 6. Diweddariad Tir Tan y Manod

Yn dilyn cyfarfod ar y safle gyda thrigolion Tan y Manod bu i'r Cynghorydd Rory Francis diweddaru'r Pwyllgor gyda'r nodiadau isod:

*Pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth*

*Mae angen rhagor o lefydd parcio, o bosibl hydffyrdd o ochr y cae. Nes i bwysleisio y byddai hyn yn dibynnu ar gydsyniad Cyngor Gwynedd a gallu'r Cyngor Tref i godi arian at y pwrpas yma.*

*Fe fyddai'r rhan fwyaf o'r llefydd ar gyfer ceir pobl leol, ond fyddai angen un neu ddau ar gyfer y rhai sy'n dod i'r safle hefyd.*

*Fe allai Social Parks and Gardens helpu dewis coed addas ar gyfer y safle*

*Gellid plannu coed ffrwythau yn y llefydd mwyaf addas a choed brodorol sy'n gallu gwrthsefyll amgylchiadau gwlyb mewn llefydd eraill, megis helyg a gwern.*

*Er y cafod llysiau'r Dial ei symud o'r tir cyn i'r Cyngor Tref ei brynu, mae'n degyb o ddod yn ôl ac fe fydd hyn angen sylw parhaus.*

*Fe fyddai afal Ynys Enlli'n dda i'r safle. Mae rhai yn tyfu yng ngardd Carys rhai cannoedd o lethenni i ffwrdd ac maen nhw ymdopi'n dda gyda'r hinsawdd. Mae'n debyd na fyddai Russets yn ffynnu yna.*

*Fe fydd angen creu mynediad i'r cae mwy, mwy na thegyd lle roedd yn fynedfa gynt, a lle gellir gweld yr hen giât haearn heddiw. Fe fydd rhaid gwneud hwn yn addas ar gyfer yr anabl.*

*Dylid gwneud rhywfath o lwybr o gwmpas y cae, fel y gall cadeiriau olwyn symud o'i gwmpas, i ryw raddau.*

*Mae pawb yn cytuno y dylai'r berllan fod mor wyllt â phosibl ac yn organig yn ddelfydol.*

*Gellid defnyddio sleepers rheilffordd i greu myneiad, ond fyddai rhaid gwneud yn siŵr na fyddai'r rhain yn arwain at lygredd oherwydd creosote neu gemegion gwenwynig eraill a ddefnyddiwyd i'w trin nhw.*

*Mae Gwenlli yn trio perswadio Ysgol y Manod i gymryd diddordeb yn y prosiect yn ôl pob sôn.*

*Fe hoffen ni weld llwyni ar gyfer aeryn a chyrens yn osgyal a choed ffrwythau, ond dim mafon ohewydd y gallan nhw fod yn ymledol.*

*Naethon ni ddim trafod enw'r cae*

*Mae 7-person wedi cytuno I fod ar gweithgor.*

Bydd rhaid cael mynediad saff i'r safle cyn i unrhyw waith cael i wneud ar y cae. Bu trafodaeth am be fydd cyfrifoldebau gweithgor am mai'r Cyngor Tref sydd yn gyfrifol am y safle. A oes angen caniatâd cynllunio i gael ffordd a mynediad i'r gwaith peiriannol? Mae angen ffens o amgylch y cae ac wrth ochor y ffos ar hyd y llwybr. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnig 70 o goed i ardaloedd o fewn y parc i ddathlu pen-blwydd y Parc. Mae Cyngor Tref wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd yn holi os oedd angen caniatâd cynllunio i greu mynedfa.

**Argymell:** Bu i'r Cynghorydd Bedwyr Gwilym gynnig bod y gweithgor yn arwain y prosiect a thrio am unrhyw grantiau. I'r Cyngor Tref rhoi briff i'r gweithgor ac i'r gweithgor gyflwyno cynllun gwaith i'r Cyngor. Bu i Gynghorydd Gwenlli Evans eilio'r cynnig. Yn y pythefnos nesaf, bydd rhaid ymateb i lythyr Cyngor Gwynedd, sydd angen atebion pellach cyn ateb yn ffurfiol; cael pris am ffens a threfnu dyddiad cyfarfod i'r gweithgor.

## 5.Unrhyw fater brys

ANFONEBAU

Mae dwy anfoneb angen eu talu, cyn cyfarfod arferol nesaf.

Mr Glyn Lasarus, Cyfieithu 3 cyfarfod, £ 112.00

Cyngor Gwynedd, darpariaeth toiledau cyhoeddus Diffwys, £ 4000.00 (wedi ei gymeradwyo yn y preasept mis Ionawr 2021)

**Argymell:** I dalu'r anfonebau. I gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynglŷn â safon glendid a chynnal a chadw'r toiledau, nifer o drigolion wedi cwyno bod safon y glendid wedi dirywio a bod plant yn mynd i'r toiledau a chreu difrod i'r gosodiadau. Y Dirprwy glerc cysylltu efo Swyddog Cymunedol yr Heddlu i ofyn iddynt gadw llygaid ar y toiledau.

TIR / CAE TU ÔL I EIFION TERRACE

Mae un o drigolion y rhes dai wedi cysylltu efo'r Cyngor Tref yn mynegi diddordeb prynu'r tir i droi yn rhandir neu ardd i'r trigolion. Mae yn gofyn am farn/cefnogaeth y Cyngor Tref os bydd yn gwneud hyn.

**Argymell:** Bu i'r pwyllgor drafod y mater a mynegi bod y tir angen cael i dacluso., ond yn hanesyddol, gan mai hen waith nwy oedd y safle, mae pryderon am yr oglau nwy sydd dal i fod o amgylch y cae ar rhai adegau ac oes lefel o wenwyn dal yn y tir. Cyn i unrhyw waith cael i wneud, mae'r Cyngor yn argymell bydd rhaid profi'r pridd am unrhyw gemegau.

BWRDD DEHONGLI TRÊN BACH DIFFWYS

Bu i'r Dirprwy Glerc rhoi gwybod i'r Pwyllgor bod arian ar ôl gan Gyngor Gwynedd yng nghyllid Safle Treftadaeth y Byd a bod bosib i'r Cyngor Tref rhoi cais i mewn am fwrdd dehongli gyda hanes y trên/sgwâr a hwyrach cael hen lun o'r safle.

**Argymell:** Bu I'r Pwyllgor gefnogi'r syniad a chaniatáu i'r Dirprwy Glerc ymchwilio'r wybodaeth hanesyddol a chael dyfynbrisiau bwrdd dehongli.

Daeth y Cyfarfod i ben 8.20yh.

**ARGYMELL: I dderbyn yr adroddiadau. Mae angen torri gwair yn rhai or caeau. Mae llawer o gwaith, sydd wedi codi yn yr adroddiadau,wedi'i cwblhau neu mewn llaw. Dirprwy Glerc i weithredu yr argymhellion uchod.**